



PECYN RECRIWTIO : Swyddog Prosiect (Natur am Byth)

Mae gan Plantlife Cymru gyfle pedair blynedd newydd cyffrous o fewn prosiect partneriaeth Natur am Byth. Ydych chi'n mwynhau ymgysylltu â phobl yn y byd naturiol, gweithio mewn amgylchedd partneriaeth, a hyrwyddo cadwraeth rhywogaethau? Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a threfnus i'n helpu i gyflawni cadwraeth ac allgymorth ar gyfer rhywogaethau dan fygythiad yng Nghymru. Oes gennych chi angerdd am blanhigion, a brwdfrydedd i ddysgu mwy am gennau, bryoffytau a charoffytau? Bydd y rôl hon yn cynnwys gweithio yn bennaf yn ardal Gororau Cymru ym Mhowys, ond bydd disgwyl hefyd iddi gyflawni camau gweithredu'r prosiect mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, yn enwedig ar Benrhyn Gŵyr ac yng Ngogledd Cymru.

Am y rôl:

Mae Plantlife yn chwilio am Swyddog Prosiect brwdfrydig sy'n angerddol dros warchod planhigion, cennau, bryoffytau, caroffytau a ffyngau i helpu i gyflawni ein hymrwymiaidau o fewn prosiect pedair blynedd Natur am Byth ledled Cymru.

Yn y swydd hon, byddwch yn gweithio ochr yn ochr â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'u Swyddog Prosiect ar gyfer Gororau Cymru, i gyflawni gweithgareddau Prosiect Gororau Cymru ym Mhowys, gyda'r mwyafrif ohonynt yn ymwneud â chennau a bryoffytau. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau cyhoeddus, arolygon a monitro, a byddwch yn gweithio gyda phartneriaid lleol a pherchnogion tir i gyflwyno gweithgareddau fel rheoli tir a gwyddoniaeth y dinesydd.

Byddwch hefyd yn gweithio ochr yn ochr â staff eraill prosiect Natur am Byth o fewn Plantlife a'r bartneriaeth ehangach i gyflawni nodau prosiect mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, er enghraifft gweithgarwch adfer rhywogaeth ar gyfer y cen *Cladonia peziziformis* ar Ynys Môn a Phenrhyn Llŷn (Gogledd Cymru) a Phenrhyn Gŵyr (De Cymru).

Byddwch yn rhan bwysig o dîm Plantlife, a phartneriaeth ehangach Natur am Byth a thîm cyflawni'r staff, gan ddefnyddio eich sgiliau cydlyn, rhwydweithio a threfnu i gyflawni'r canlyniadau a'r allbynnau y cytunwyd arnynt ar gyfer y prosiect. Byddwch yn gweithio'n arbennig o agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd gennych brofiad o gyflwyno prosiectau, gan gynnwys gweithio gyda chontractwyr, gwirfoddolwyr (gan gynnwys hyfforddiant), perchnogion a rheolwyr

tir (darparu cyngor a threfnu rheoli cynefinoedd). Bydd gennych rywfaint o wybodaeth am gennau, bryoffytau a / neu garoffytau a'u hecoleg, neu ddiddordeb mewn dysgu mwy amdanynt. Byddwch yn unigolyn llawn hunangymhelliant sy'n gallu gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm daearyddol eang, ond gydag angerdd dros weithio mewn partneriaeth.

Am y bartneriaeth 'Natur am Byth!':

Mae partneriaeth 'Natur am Byth!' yn uno naw elusen amgylcheddol a CNC i ddarparu rhaglen treftadaeth naturiol ac allgymorth fwyaf y wlad i achub rhywogaethau rhag difodiant a chysylltu pobl â byd natur.

Mae'r rhaglen bedair blynedd gwerth £8m yn cynnwys un ar ddeg o brosiectau sy'n canolbwyntio ar 67 o rywogaethau dan fygythiad, ynghyd â nifer o fentrau ledled Cymru i ehangu cyfranogiad a dealltwriaeth o fyd natur. Bydd pob prosiect sy'n seiliedig ar le yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol dirywiad rhywogaethau, gan weithio gyda channoedd o berchnogion tir a gwirfoddolwyr cymunedol i gyflawni newid cadarnhaol ar gyfer adferiad byd natur.

Nid yn unig y bydd hon yn un o'r rhaglenni cadwraeth mwyaf uchelgeisiol yng Nghymru erioed, ond bydd hefyd yn cynnig llu o weithgareddau ymgysylltu a gwirfoddoli i ddod â phob rhywogaeth yn fyw, ailgysylltu pobl â byd natur ac adeiladu ar y gwerth y mae'r diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ei roi i'r byd naturiol. Mae Natur am Byth yn rhoi pwyslais arbennig ar gynyddu cynrychiolaeth ymhlith ein gweithlu, gwirfoddolwyr a chefnogwyr - rydym yn credu bod byd natur i bawb, dim ots beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau.

Gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, mae Natur am Byth yn cael ei gydlynu gan CNC mewn partneriaeth ag Amphibian & Reptile Conservation; yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod; Buglife; yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn; Butterfly Conservation; Plantlife; y Gymdeithas Cadwraeth Forol; RSPB Cymru; ac Ymddiriedolaeth Natur Vincent.

Bydd mwy nag 20 o staff yn gweithio ar draws y bartneriaeth, pob un yn cael ei gyflogi gan un o'r deg partner i ffurfio cydweithrediad cyffrous ar gyfer byd natur. Mae CNC yn cyflogi tîm canolog Natur am Byth sy'n arwain ar reoli'r rhaglen. Mae'r tîm yma'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu, ymgysylltu â phobl, adrodd ar raglenni, gwerthuso a chydymffurfiaeth ariannol. Mae'r tîm canolog hwn yn bodoli o fewn grŵp prosiectau strategol gweithrediadau CNC, sy'n cynnal nifer o raglenni, prosiectau a mentrau sy'n cael eu cyllido yn allanol.

Mae CNC wedi cyfrannu £1.7m tuag at y rhaglen ac mae partneriaid Natur am Byth wedi sicrhau £1.4m pellach gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a

nifer o ymddiriedolaethau elusennol, sefydliadau a chyfranwyr corfforaethol. Mae'r rhain yn cynnwys rhoddion gan Sefydliad Esmée Fairbairn ac Ymddiriedolaeth Elusennol Banister, ynghyd â chefnogaeth sylweddol gan Gynllun Cymunedau Treth Gwarediadau Tirlenwi Llywodraeth Cymru sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).

Mae [crynodedb o'r prosiect](#) ar gael i sicrhau rhagor o wybodaeth.

Am Plantlife

Plantlife yw'r elusen aelodaeth cadwraeth ryngwladol sy'n gweithio i sicrhau byd sy'n gyfoethog mewn planhigion gwylt a ffyngau. Ni yw'r unig elusen aelodaeth yn y DU sy'n ymroddedig i warchod planhigion gwylt a ffyngau yn eu cynefinoedd naturiol a helpu pobl i'w mwynhau a dysgu amdanynt.

Rydym yn gweithio ar draws yr holl ecosystemau a'r cynefinoedd planhigion allweddol gan ganolbwyntio ar gynefinoedd a rhywogaethau penodol, yn dibynnu ar angen. Rydym yn hyrwyddo pwysigrwydd pob planhigyn a ffwng ar gyfer planed gynaliadwy ac iach ac, ar hyn o bryd, mae gennym ffocws arbennig yn y DU ar laswelltiroedd a choedwigoedd tymherus, oherwydd eu bod yn agored iawn i niwed, ac ar adferiad rhywogaethau sydd mewn perygl. Wedi'i sefydlu yn 1989, mae gan Plantlife bellach filoedd o aelodau a chefnogwyr.

Planhigion gwylt a ffyngau yw sylfaen holl fywyd y Ddaear. Mae Plantlife yn gwella, yn adfer, yn gwarchod ac yn dathlu ein treftadaeth naturiol drwy weithio gyda pherchnogion tir, sefydliadau cadwraeth eraill, cyrff sector cyhoeddus, y sector preifat a'r cyhoedd yn ehangach. Drwy ein gwaith rydym yn cysylltu pobl â byd natur fel bod pawb mewn cymdeithas yn gallu mwynhau a helpu i amddiffyn y byd naturiol o'n cwmpas. Rydym yn cydweithredu ac yn dylanwadu ar lwyfan y byd i rannu ein hangerdd a chyflawni ein nodau.

Mae Plantlife yn berchen ar 23 o warchodfeydd natur sy'n gorchuddio bron i 4,500 o erwau ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Rydym yn gwneud gwaith cadwraeth ac allgymorth ar ein tir ein hunain ac mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau eraill. Rydym yn cynghori perchnogion tir ac yn cyhoeddi canllawiau arfer gorau. Rydym yn cynnal ymchwil ac yn casglu data fel sail i bolisi'r llywodraeth. Rydym yn cynnwys pobl o bob oedran a gallu mewn cadwraeth ac addysg planhigion ac yn rhoi cyfleoedd i bawb fwynhau blodau gwylt.

Rydym yn gweithio dramor drwy gyfrannu at gonfensiynau rhyngwladol ar hinsawdd a bioamrywiaeth ac rydym yn Sylwedydd COP cofrestredig. Gan weithio gyda'r Bartneriaeth Fyd-eang ar gyfer Cadwraeth Planhigion, buom yn allweddol wrth greu'r Strategaeth Fyd-eang ar gyfer Cadwraeth Planhigion a sefydlu Ardaloedd

Planhigion Pwysig ledled y byd - gan gynllunio eu cadwraeth gyda'r llywodraeth a grwpiau cymunedol.

Rydym yn cael ein llywodraethu gan fwrdd o 12 o ymddiriedolwyr ac mae gennym tua 70 o staff wedi'u lleoli ledled y DU. Rydym hefyd yn cefnogi tîm o 1500 o wirfoddolwyr sy'n gweithio yn y maes, mewn digwyddiadau ac yn ein swyddfeydd.

Yn elusen gofrestredig, mae Plantlife yn cael ei chyllido gan roddion gan ei haelodau a'i chefnogwyr, drwy grantiau ac ymddiriedolaethau elusennol a thrwy ei chyngor a'i phrosiectau rheoli tir arloesol.

Mae Plantlife yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys dim ots beth yw eu rhyw, hil, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, statws trawsryweddol, crefydd neu gred, statws priodasol, neu feichiogrwydd a mamolaeth.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan ni: www.plantlife.org.uk. Byddwch hefyd yn dod o hyd i wybodaeth yno am ein hymddiriedolwyr, ein polisiau a'n prosiectau, yn ogystal â'n hadroddiadau a'n cyfrifon blynyddol.

Am y swydd

Mae hon yn swydd amser llawn [35 awr yr wythnos]. Mae'r rôl yn un cyfnod penodol, hyd at ddiwedd mis Mehefin 2027.

Mae disgwyl y bydd y swydd wedi'i lleoli gartref yng Nghymru neu'n agos at Gymru. Bydd y rôl yn gofyn am rywfaint o deithio ledled Cymru gyfan ac weithiau i ardaloedd eraill yn y DU i gwrdd â chefnogwyr ac ymweld â lleoliadau eraill Plantlife.

Rydym yn gweithio oriau swyddfa arferol (9-5, o ddydd Llun i ddydd Gwener), er y bydd y rôl hon hefyd yn gofyn am rywfaint o weithio dros y penwythnos a gyda'r nos.

Mae'r pecyn gwobrau yn seiliedig ar gyflog cychwynnol o £30,740 (sef band pwynt D) ynghyd â chyfraniadau i gynllun pensiwn personol grŵp a buddion eraill, gan gynnwys 36 diwrnod o wyliau y flwyddyn (gan gynnwys gwyliau banc).

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn destun archwiliad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Sut i ymgeisio

Mae disgrifiad swydd llawn a manyleb y person wedi'u nodi isod. Os ydych chi'n gweddu i'r swydd, ewch i'r ddolen 'Ymgeisio Yma' ar ein gwefan ni, a fydd yn mynd â chi i'n porthol recriwtio ar-lein. Bydd gofyn i chi uwchlwytho ffurflen gais sydd i'w gweld ar ein porthol ni.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw dydd Llun 10 Gorffennaf (9am).

Rydym yn disgwyl cynnal cyfweiliadau cychwynnol ar Microsoft Teams ar ddydd Mawrth 18 Gorffennaf.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rôl, cysylltwch â'n tîm Adnoddau Dynol ar jobs@plantlife.org.uk. Byddant hefyd yn gallu trefnu trafodaeth anffurfiol gyda'r rheolwr llinell, Lizzie Wilberforce.

DISGRIFIAD SWYDD PLANTLIFE INTERNATIONAL

Swyddog Prosiect (Natur am Byth)

YN ADRODD I

Arweinydd Plantlife Cymru

YN GYFRIFOL AM

Gwirfoddolwyr, myfyrwyr ymchwil

PERTHNASOEDD ALLWEDDOL

Staff canolog a phrosiect Natur am Byth; Swyddog Prosiect Gororau Cymru CNC; Staff arbenigol CNC.

Plantlife - Cyfarwyddwr Rhaglenni Cadwraeth; Arbenigwr Cennau a Bryoffytau; Pennaeth Prosiectau; Pennaeth Rhywogaethau a Safleoedd; Swyddog Planhigion Fasgwlaidd Natur am Byth; Tîm Cyfathrebu; Tîm Datblygu; Tîm Data a GIS.

PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD

Cyflwyno prosiect Gororau Cymru Natur am Byth ym Mhowys, gan weithio gyda Swyddog Prosiect y Gororau CNC, gan gynnwys cadwraeth a gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd.

Cefnogi prosiectau ardal eraill Natur am Byth gyda'u gwaith adfer rhywogaethau fel sy'n briodol.

PRIF GYFRIFOLDEBAU:

- Cyflwyno cynllun prosiect Natur am Byth ar gyfer ardal Gororau Cymru, ochr yn ochr â Swyddog Prosiect Gororau Cymru CNC. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid allweddol yn ardal Powys (partneriaid darparu, perchnogion a rheolwyr tir, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd).

- Cynnal arolygon a monitro ecolegol, digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, darparu hyfforddiant, a gweithio gyda pherchnogion tir, gan ganolbwyntio ar gennau a bryoffytau.
- Comisiynu a goruchwyllo contractau allanol.
- Cefnogi partneriaid eraill Natur am Byth i gyflawni eu gweithgareddau prosiect eu hunain, yn enwedig o ran cennau, bryoffytau a charoffytau, ond hefyd tacsau eraill pan fo hynny'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag Arbenigwr Cennau a Bryoffytau Plantlife i gyflwyno'r prosiectau *Cladonia peziziformis* ar Ynys Môn, Penrhyn Llŷn a Phenrhyn Gŵyr.
- Cymryd rhan a chyfrannu at grwpiau llywodraethu NaB a darparu adroddiadau gweithgarwch rheolaidd i Natur am Byth, Plantlife a chydweithwyr eraill.
- Rheoli cyllidebau ac adroddiadau ariannol o fewn cyfyngiadau ariannol y cytunwyd arnynt.
- Cadw at bolisiau gwaith Plantlife bob amser, gan gynnwys y rhai ar lechyd a Diogelwch a Chyfle Cyfartal.
- Ymgymryd, o bryd i'w gilydd, â dyletswyddau eraill a all fod yn ofynnol gennych i gefnogi effeithiolrwydd y prosiect NaB a Plantlife.
- Cyfrannu at lwyddiant cyffredinol Plantlife a chefnogi diwylliant cadarnhaol drwy waith tîm, cyfathrebu ac arweinyddiaeth.

Manyleb y Person

Hanfodol	Dymunol
Profiad blaenorol o weithio ar brosiect cadwraeth sy'n cael ei gyllido gan grant	Gwybodaeth am ardal y Gororau yng Nghymru
Profiad o weithio mewn partneriaethau	Profiad o ddatblygu a chyflwyno prosiectau sy'n cael eu cyllido gan NHLF
Profiad o waith ymgysylltu â'r cyhoedd, fel cynnal digwyddiadau neu wneud cyflwyniadau	Profiad clir o integreiddio darpariaeth cadwraeth ar draws tacsau lluosog
Profiad clir o reoli meysydd gwaith lluosog	Tystiolaeth o brofiad o gyflwyno cadwraeth cennau a bryoffytau ymarferol
Lefel sylfaenol o leiaf o ddealltwriaeth o gennau a bryoffytau (gallai gynnwys adnabod, ecoleg, gofynion cynefin, neu ofynion rheoli a bygythiadau). Cymhelliant i ddysgu mwy.	Dealltwriaeth o, neu ddiddordeb mewn, tacsau eraill a gynrychiolir yn Natur am Byth, yn enwedig infertebrata, planhigion fasgwlaidd a / neu ffyngau
Profiad o weithio gyda chontractwyr	Gwybodaeth am sefydliadau amgylcheddol yng Nghymru
Profiad o weithio gyda pherchnogion tir a rheolwyr trydydd parti a / neu ddarparu cyngor ar reoli tir	Addysg hyd at lefel gradd neu gyfatebol mewn disgyblaeth berthnasol

Cyfarwydd â gweithio yn y sector gwirfoddol / cyrff anllywodraethol	Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a darparu hyfforddiant
Cymraeg lefel cwrteisi (e.e., ynganu geiriau, enwau, enwau llefydd a thermau Cymraeg)	Rhuglder mewn Cymraeg llafar a / neu ysgrifenedig
Medrus fel aelod o dîm llawn hunangymhelliant a chadarnhaol, sy'n hygyrch, yn cyfathrebu ac yn cydweithredu	Rheoli cyllideb
Hyder a chymhwysedd i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm ar wasgar gyda chydweithwyr mewn lleoliadau eraill	
Trwydded yrru gyfredol	

TELERAU AC AMODAU ALLWEDDOL

Cyflog*	Band D - £30,740 - £33,274 y flwyddyn
Oriau gwaith	Mae hon yn swydd lawn amser (35 awr yr wythnos)
Hyd y swydd	Contract tymor penodol (tan fis Mehefin 2027)
Lleoliad	Mae disgwyl y bydd y swydd wedi'i lleoli gartref yng Nghymru neu'n agos at Gymru. Bydd y rôl yn gofyn am deithio cyson ar draws Cymru gyfan ac weithiau i rannau eraill o'r DU i gwrdd â chefnogwyr ac i ymweld â lleoliadau eraill Plantlife.
Gwyliau	36 diwrnod o wyliau y flwyddyn (gan gynnwys gwyliau banc) Diwrnod ychwanegol o wyliau yn cael ei ddyfarnu ar ôl cwblhau'r flwyddyn 1af, a'r 3edd, y 5ed a'r 7fed blwyddyn o gyflogaeth. Cau gweithredol rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd (wedi'i gynnwys yn yr hawl)
Manteision eraill	Cynllun pensiwn cyfranogol - 6% cyflogwr Budd marwolaeth yn ystod gwasanaeth

*** Mae staff newydd yn cael eu recriwtio ar bwynt mynediad eu band**

